CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 6 MAI 2008

Presennol
Ei Theilyngdod Y Maer – Cyng. Myfi Powell-Jones

Cynghorwyr
W R Owen, R Anderson, H Edwards, O T Owen, W T Owen, H W Roberts, I C Thomas, A Y Williams, A W Bohana, G Parry, A Kirk, M Davies, R Bonner Pritchard, M Thomas, W Davies

Eglurhad gan y Clerc i egluro bod y noson ychydig yn wahanol i'r arfer. Cynghorwyr newydd yn rhan o'r cyfarfod , ond gan nad ydynt wedi cael yr agenda mewn amser gofyn i'r Cyng or ystyried hynny a symud eitemau sydd yn amserol i'r cyfarfod yn Mis Mehefin.

Gweddi
Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Caplan y Maer Parch G Williams

1. Ymddiheuriadau
Neb

2. Cyhoeddiadau'r Maer
- Noson gwobrwyo dartiau merched
- Ymweld a Premier Inn newydd yn Doc Fictoria
- Noson Gwobrwyo pool

3. Datgan Buddiant Personol

W T Owen- Cynllunio
I C Thomas – Cynllunio
H Edwards – Cynllunio
W R Owen – Cynllunio
R Anderson – Cynllunio

4. Eitemau Brys

Llythyr Cyng. R M Jones

5. **Cofnodion**

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 1 Ebrill 2008 -
ii. Panel Cyllid a Staff 15 Ebrill 2008
iii. Pwyllgor Cyffredinol 15 Ebrill 2008

Penderfynwyd

Derbyn fel rhai cywir ac ychwanegu
Oherwydd gofynion amser gofyn i Mr Laurence Jones weithredu fel Brysgyllwr yn y Noson Sefydlu Maer eleni

6. Cynllunio

I ystyried y ceisiadau

Penderfynwyd

Anfon rhestr argymhellion i'r awdurdod priodol - gweler amgaeëdig

7. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu

Penderfynwyd

I'w derbyn a'u talu

8. Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

9. Cod Ymddygiad Newydd

Penderfynwyd

Symud i'r cyfarfod yn Mis Mehefin

10. Cynhadledd Ailgylchu Ynni 10 Gorffennaf 2008

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth a gofyn i swyddog o'r adran ddod i siarad efo'r Cyngor

11. Llythyr Dr Howard Stoate MP

(Cross Party Inquiry into Childhood Leukaemia and Power Lines)

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

12. **Llythyrau o Ddiolch**

i. Eisteddfod yr Urdd
ii. Cyngor Gwynedd - Parc Sglefrio

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

13. **Gwaith Brics**

i. Llythyr Alun Ffred AC
iii. Llythyr Hywel Williams AS
iv. Llythyr Alun Ffred Jones ynghyd a llythyr Hanson Bricks

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth, ond annog pobl lleol i brynu'n lleol gan mai dyna sydd wedi achosi'r sefyllfa yma

14. Cyngor Gwynedd

Cau ffordd dros dro

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth, ond ysgrifennu at Cyngor Gwynedd i erfyn bod y wardeiniaid traffig ddim yn gweithio ar y diwrnod

15. Cyngor Gwynedd

Ymateb parthed Y Maes

Penderfynwyd
Ysgrifennu at Aled Davies, Cyngor Gwynedd i erfyn i banel rheoli cael ei sefydlu

16. Drafft Tendr Glanhau

Penderfynwyd

Derbyn y cynnwys gan gofio bod hawl i weithredu i'r Maer, Dirprwy a'r Clerc

17. Cwestiynau

Ydi'n bosib ysgrifennu at y Cynghorwyr sydd wedi gadael Y Cyngor i ddiolch am eu gwaith trylwyr dros y blynyddoed d

18. Maerolaeth 2008/2009

Darllenodd Y Clerc llythyr o ymddiswyddiad gan Cyng. Richard Morris Jones. Ac ar sail hynny penderfynwyd dileu'r rheolau sefydlog er mwyn medru ethol Maer etholedig newydd.

Penderfynwyd

Derbyn gyda tristwch cynnwys y llythyr ac et hol Cyng. Myfi Powell-Jones i aros fel Maer Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon am y flwyddyn 2008/2009

Gorffennodd y cyfarfod am 7.00

Arwyddwyd..... Dyddiad.....